

Isod rydym wedi amlinellu rhai camau y gallwch eu cymryd i brofi a yw ymwelydd yn ddidwyll.

- Siarad â'r ymwelydd drwy'r drws
- Rhoi'r gadwyn yn ei lle bob amser cyn agor y drws
- Gofyn iddynt roi eu cerdyn adnabod drwy'r blwch postio neu ei ddangos drwy'r ffenestr fel y gallwch ddarllen y manylion
- Cofnodi enw'r ymwelydd, a rhif ffôn
- Os oes gennych unrhyw amheuaeth, peidiwch ag agor y drws
- Cymerwch eich amser, peidiwch â gadael i neb wneud i chi ruthro.

I gadarnhau hunaniaeth yr ymwelydd, ffoniwch

 **0330 10 10 444**

Mae'r daflen hon hefyd ar gael mewn Cymraeg. Os byddwch angen copi, ffoniwch 0330 10 10 444 neu ewch i spenergynetworks.co.uk

Ni fydd galwadau i rifau 03 yn costio mwy na galwad cyfradd genedlaethol i rif 01 neu 02 ac mae'n rhaid iddynt gael eu cynnwys fel rhan o unrhyw funudau cynwysedig yn yr un modd â galwadau 01 a 02. Mae'r rheolau hyn yn gymwys i alwadau o unrhyw fath o linell yn cynnwys symudol, BT, unrhyw linell sefydlog arall neu ffôn talu.

Mynediad i'ch cartref

Sicrhau eich diogelwch



Mynediad i'ch cartref

O dro i dro efallai y bydd angen i ni ymweld â'ch cartref i archwilio neu i wneud gwaith cynnal a chadw ar ein hoffer. Un o'n gweithwyr neu contractwr sy'n gweithio i ni fydd yn ymweld â chi.

Rydym yn arbennig o bryderus ynglŷn â chwsmeriaid all fod yn agored i 'weithwyr ffug' fydd yn honni eu bod yn ein cynrychioli. Mae'r daflen hon yn egluro sut y gallwch fod yn sicr bod ein cynrychiolwyr yn ddiwyll.

Bydd pob un o'n gweithwyr a chontractwyr yn cario cerdyn adnabod sy'n dangos enw'r Cwmni, eu henwau eu hunain a llun o'r unigolyn. Bydd ein cynrychiolwyr yn dweud wrthy ch pwy ydynt a pham eu bod yn ymweld â chi. Byddant bob amser yn dangos eu cerdyn adnabod i chi.



Cerbydau

Pan fo'n bosibl, bydd yr holl gerbydau a'r dillad a ddefnyddir i ymweld ag eiddo'n cwsmeriaid yn cynnwys logo SP Energy Networks neu logo'r contractwr.

Mae eich diogelwch personol yn bwysig. Peidiwch â gadael neb i'ch cartref nes eich bod yn gwybod pwy ydynt a'ch bod wedi gweld tystiolaeth o'u hunaniaeth.

Peidiwch â chael eich rhuthro i adael y cynrychiolydd i mewn i'ch cartref. Dylech fod yn amheus os bydd yr ymwelydd ar frys i gael mynediad i'ch eiddo.

Cyfrineiriau

Os ydych yn ddall, â nam ar y golwg neu os hoffech deimlo'n fwy diogel, gallwch gytuno ar gyfrinair gyda ni pryd bynnag yr ydych yn trefnu apwyntiad.

I drefnu hyn, ffoniwch ni ar

 **0330 10 10 444**

neu e-bostio

 **customer care@spenergynetworks.com**

Am fwy o wybodaeth am SP Energy Networks, ewch i'n gwefan

 **www.spenergynetworks.co.uk**